Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
|---|---|
| ar gyfer | for a |
| CYFARFOD BLYNYDDOL RHITHWIR O GYNGOR SIR YNYS MÔN | VIRTUAL ANNUAL MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| ar | on |
| DYDD MAWRTH<br>18 MAI 2021<br>am 2.00 o'r gloch | TUESDAY<br>18 MAY 2021<br>at 2.00 pm |

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.***

**R H A G L E N**

**1. ETHOL CADEIRYDD Y CYNGOR**

Ethol Cadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2021/22.

**(Cyfeirir aelodau at y ddogfen 'Trefn y Gweithgareddau' ynglŷn â'r seremoni ar gyfer ethol Cadeirydd y Cyngor Sir, a fydd yn cael ei chyflwyno yn y cyfarfod).**

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD Y CYNGOR**

Ethol Is-Gadeirydd Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2021/22

**3. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**4. CYHOEDDIADAU**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd, yr Arweinydd neu'r Prif Weithredwr, ac unrhyw sylwadau ar ei chyfnod yn y swydd gan y Cadeirydd ymadawol.

**5. CADARNHAU'R CYNLLUN DIRPRWYO**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau'r rhan honno o'r Cynllun Dirprwyo y mae'r Cyfansoddiad yn nodi mai mater i'r Cyngor yw cytuno arno (fel y nodir ym Mharagraff 3.2 o'r Cyfansoddiad).

**6. CADARNHAU PWYLLGORAU**

Bydd y Cadeirydd yn cadarnhau ailbenodi'r strwythur Pwyllgorau a ganlyn fel y cyfeirir ato yn Adran 3.4 o Gyfansoddiad y Cyngor, ynghyd â'r canlynol: -

- Pwyllgor Tâl a Graddfeydd (Is-Bwyllgor o'r Cyngor)
- Panel Penodi i'r Pwyllgor Safonau
- Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol (CYSAG)
- Is-Bwyllgor Indemniadau

**7. DIRPRWYAETH GAN YR ARWEINYDD - AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH**

Yn unol â Pharagraff 4.1.1.2 o'r Cyfansoddiad, cael gwybod gan yr Arweinydd enwau'r Cynghorwyr a ddewiswyd i fod yn Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio.

**8. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD AM 2020/21**

Ethol Cadeirydd yn unol â Pharagraff 3.4.12.3 y Cyfansoddiad.

**9. TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL O FEWN Y CYNGOR**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**10. CYRFF ALLANOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**11. DATBLYGU AELODAU**

Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Hyfforddi Adnoddau Dynol.

**12. RHAGLEN O GYFARFODYDD Y CYNGOR SIR YN 2021/22**

Cymeradwyo'r rhaglen ganlynol o gyfarfodydd y Cyngor Sir ar gyfer y flwyddyn i ddod: -

- 7 Medi 2021 - 2.00 pm
- 28 Medi 2021 - 2.00 pm
- 26 Hydref 2021 (Arbennig) - 10.30 am
- 7 Rhagfyr 2021 - 2.00 pm
- 22 Chwefror 2022 - 2.00 pm
- Mai (Cyfarfod Blynyddol) - dyddiad i’w gadarnhau

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mai 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **TREFNIADAU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL O FEWN Y CYNGOR** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **I ADOLYGU CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL AR BWYLLGORAU** |

**1.0** Mae angen i'r Cyngor adolygu trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ei Bwyllgorau yn flynyddol.

**2.0** Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol, sef:

*"(a) nad yw'r holl seddau ar y corff yn cael eu dyrannu i'r un grŵp gwleidyddol;*

*(b) bod mwyafrif y seddau ar y corff yn cael eu dyrannu i grŵp gwleidyddol penodol os yw nifer y bobl sy'n perthyn i'r grŵp hwnnw yn fwyafrif o aelodaeth yr Awdurdod;*

*(c) yn amodol ar (a) a (b) uchod, mae nifer y seddau ar bwyllgorau cyffredin Awdurdod perthnasol, sy'n cael eu dyrannu i bob plaid wleidyddol, â'r un gyfran o gyfanswm yr holl seddau ar y pwyllgorau cyffredin o'r Awdurdod hwnnw fel sy'n deillio o nifer yr aelodau o'r grŵp hwnnw i aelodaeth yr Awdurdod; ac*

*(d) yn amodol ar baragraffau (a) i (c) uchod, bod nifer y seddau ar y corff sy'n cael eu dyrannu i bob grŵp gwleidyddol â'r un gyfran â nifer yr holl seddau ar y corff hwnnw ac sy'n deillio o nifer yr aelodau o'r grŵp hwnnw sy'n aelodau o'r Awdurdod."*

**3.0** Mae'r sefyllfa o ran Aelodaeth o Grwpiau fel â ganlyn yn dilyn is etholiadau 6 Mai 2021:

| | |
|---|---|
| Plaid Cymru | - 14 |
| Llafur Cymru | - 2 |
| Y Grŵp Annibynnol | - 7 |
| Grŵp Annibynwyr Môn | - 7 (Yn cynnwys un Aelod o'r Democratiaid Rhyddfrydol) |

**4.0** Mae'r matrics sydd wedi'i atodi yn nodi'r hawl i seddi ar bob Pwyllgor.

**5.0** Cyfanswm nifer y seddi i'w dyrannu yw 113.

**6.0** Yn amlwg, oni bai fod modd dod i ganlyniad lle mae seddau cyfan yn cael eu dyrannu, bydd ffracsiynau o seddi yn golygu na fydd modd cydymffurfio yn union. Fodd bynnag, mae angen sicrhau'r gydymffurfiaeth gorau posibl yn seiliedig ar y ffigyrau a'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 2 uchod.

**7.0** Gall pob grŵp gwleidyddol ar y Cyngor ond ddyrannu'r seddau maent yn eu derbyn o dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i'w haelodau eu hunain ac ni allant eu dyrannu i Gynghorwyr nad ydynt yn Aelodau o'r un blaid wleidyddol.

8.0 Wedi'i atodi, mae'r Matrics sy'n nodi'r hawl cyffredinol i seddau ar Bwyllgorau.

9. Yn unol â'r protocolau rheolaeth gwleidyddol, mae Arweinyddion Grwpiau wedi eu hymgynghori â nhw mewn perthynas â'r trefniadau rheolaeth wleidyddol.

**10.0 Argymhellion:-**

(i) Gofynnir i'r Cyngor gadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol a nifer y seddau a ddyrennir i bob un o'r Grwpiau yn unol â Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.

(ii) Bod Arweinyddion Grwpiau yn hysbysu Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd cyn gynted â phosibl os oes unrhyw newidiadau i Aelodaeth Grwpiau ar Bwyllgorau.

Huw Jones
Pennaeth Gwasanaethau
Democrataidd
10/5/2021

**Mai /May 2021**

| Balans ar y Cyngor Sir<br>Balance on County Council | |
|---|---|
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | 14 |
| Llafur Cymru<br>Welsh Labour | 2 |
| Y Grwp Annibynnol | 7 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | 7 |
| | |
| | 30 |

**PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG**
**SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES**

| Pwyllgorau<br>Committees | Partneriaeth<br>Partnership | Corfforaethol<br>Corporate | Cyfanswm Craffu<br>Total Scrutiny |
|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 10 | 10 | 20 |
| | *4.6667*<br>5 | *4.66667*<br>5 | *9.333333333*<br>10 |
| | *0.6667*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *1.333333333*<br>2 |
| | *2.3333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *4.666666667*<br>4 |
| | *2.3333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *4.666666667*<br>4 |
| | | | |
| | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *20*<br>20 |

| ALLWEDD | KEY |
|---|---|
| *Chwith uchaf, italic = hawl ffracsiynol damcaniaethol* | |
| *Top left, italic, theoretical fractional entitlement* | |
| | Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn |
| | Bottom right, normal = whole number suggestion |

**LLED-FARNWROL**
**QUASI-JUDICIAL**

| Pwyllgorau<br>Committees | Cynllunio a Gorchmynion<br>Planning and Orders | Archwilio<br>Audit | Gwasanaethau Democrataidd<br>Democratic Services | Penodiadau<br>Appointments | Ymchwilio<br>Investigation | Disgyblu<br>Disciplinary | Apeliadau<br>Appeals | Trwyddedu<br>Licensing |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 11 | 8 | 10 | 10 | 3 | 3 | 10 | 11 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | *5.13333*<br>5 | *3.73333*<br>4 | *4.66667*<br>5 | *4.66667*<br>5 | *1.4*<br>1 | *1.4*<br>1 | *4.666667*<br>5 | *5.13333333*<br>5 |
| Llafur<br>Labour | *0.73333*<br>1 | *0.53333*<br>0 | *0.66667*<br>1 | *0.66667*<br>1 | *0.2*<br>0 | *0.2*<br>0 | *0.666667*<br>1 | *0.73333333*<br>1 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | *2.56667*<br>3 | *1.86667*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *0.7*<br>1 | *0.7*<br>1 | *2.333333*<br>2 | *2.56666667*<br>3 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | *2.56667*<br>2 | *1.86667*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *2.33333*<br>2 | *0.7*<br>1 | *0.7*<br>1 | *2.333333*<br>2 | *2.56666667*<br>2 |
| | | | | | | | | |
| | *11*<br>11 | *8*<br>8 | *10*<br>10 | *10*<br>10 | *3*<br>3 | *3*<br>3 | *10*<br>10 | *11*<br>11 |

**PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR**
**OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL**

| Pwyllgorau<br>Committees | CYSAG<br>SACRE | Cynllunio ar y cyd<br>Joint Planning | Tal a Graddio<br>Pay and Grading | Penodi Safonau<br>Standards Appointing | Is-Bwyllgor Indemniadau<br>Indemnities sub-Committee | Cyfanswm Eraill<br>Total Others | CYFANSWM LLAWN<br>GRAND TOTAL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aelodaeth<br>Membership | 6 | 7 | 6 | 3 | 5 | 93 | 113 |
| Plaid Cymru<br>Party of Wales | *2.8*<br>3 | *3.266666667*<br>3 | *2.8*<br>3 | *1.4*<br>1 | *2.333333*<br>2 | *43.4*<br>43 | *52.73333333*<br>53 |
| Llafur<br>Labour | *0.4*<br>0 | *0.466666667*<br>1 | *0.4*<br>0 | *0.2*<br>0 | *0.333333*<br>0 | *6.2*<br>6 | *7.533333333*<br>8 |
| Grwp Annibynnol<br>Independent Group | *1.4*<br>1 | *1.633333333*<br>2 | *1.4*<br>1 | *0.7*<br>1 | *1.166667*<br>1 | *21.7*<br>22 | *26.36666667*<br>26 |
| Annibynwyr Mon<br>Anglesey Independents | *1.4*<br>2 | *1.633333333*<br>1 | *1.4*<br>2 | *0.7*<br>1 | *1.166667*<br>2 | *21.7*<br>22 | *26.36666667*<br>26 |
| | | | | | | | |
| | 6<br>6 | *7*<br>7 | *6*<br>6 | *3*<br>3 | *5*<br>5 | *93*<br>93 | *113*<br>113 |

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **18 Mai 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **CYRFF ALLANOL** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CADARNHAU APWYNTIADAU I GYRFF ALLANOL AR GYFER 2021/22** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **PENNAETH Y GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD** |

## 1.0 Cefndir

Yn unol â rheol gweithdrefn 4.1.1.2.7 (ii) y Cyngor, mae'n ofynnol i'r cyfarfod blynyddol dderbyn a chadarnhau rhestr o aelodau i wasanaethu ar gyrff allanol sydd ddim yn gorfod bod yn aelodau o'r Pwyllgor Gwaith yn unol ag adran 5.8.4.2 y Cyfansoddiad. Mae manylion apwyntiadau cyfredol ynghlwm i'r adroddiad yma ac ymgynghorwyd gydag Arweinyddion Grŵp.(Noder: nid yw Grŵp Cyswllt Wylfa Newydd bellach ar y rhestr) Mae'r rhain yn apwyntiadau gwahanol i'r apwyntiadau a wneir gan yr Arweinydd.

## 2.0 Argymhelliad

Cytuno a chadarnhau'r apwyntiadau a welir yn y rhestr ynghlwm ac apwyntio un aelod ar y Fforwm Iaith.

**Huw Jones**
**Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd**
**1/5/21**

This page is intentionally left blank

# APPENDIX 1

**OUTSIDE BODIES, JOINT COMMITTEES AND PARTNERSHIPS**

**REPRESENTATION TO BE AGREED AND CONFIRMED BY FULL COUNCIL**

| No | Title | No of Members Required | Names of Representatives |
|---|---|---|---|
| 1. | North Wales Fire and Rescue Authority *(3 members to be appointed up until the next Local Authority Election)* * | 3 | Richard Griffiths, Dylan Rees, Eric Jones |
| 2. | North Wales Fire and Rescue Authority Executive Panel *(2 members from the 3 above)* | 2 | Richard Griffiths, Eric Jones |
| 3. | North Wales Fire and Rescue Authority Audit Committee *(the remaining member)* | 1 | Dylan Rees |
| 4. | North Wales Community Health Council (Anglesey Local Committee) *(3 members to serve up until the next Local Authority Election)* ** | 3 | Trefor Lloyd Hughes, Dylan Rees, Glyn Haynes |
| 5. | W.L.G.A. *(Leader and Deputy Leader)* | 2 | Llinos Medi Huws, Ieuan Williams |
| 6. | Wylfa Site Stakeholder Group *(7 members consisting of the local members for Talybolion and Twrcelyn Wards plus 1 member of the Authority)* | 7 (Local Members + 1 other Member) | Local Members Talybolion and Twrcelyn wards and G.O. Jones |
| 7 | AONB Joint Advisory Committee | 5 | Richard Dew, Nicola Roberts, Dafydd Roberts, Robin Williams, Eric Jones |
| 8. | North Wales Police and Crime Panel *(Membership can be for the municipal year but it is customary for continuity purposes for appointments to be made up until the next Local Authority Election)* *** | 1 | Dylan Rees |
| 9. | Anglesey CAB | 1 | Nicola Roberts |
| 10. | Medrwn Môn *(Observer with no vote)* | 1 | Llinos Medi Huws |
| 11. | Anglesey Access Group | 1 | R.G. Parry, OBE, FRAgS |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | . | | |
| 12. | Owen Lloyd Penrhoslligwy Educational Trust *(local member)* | 1 | Vaughan Hughes |
| 13. | Cwmni Frân Wen *(Observer)* | 1 | Vaughan Hughes |
| 14. | CYNNAL Management Committee *(2 members to include an Executive Member)* | 1 | Dafydd Roberts |
| 15. | Gwynedd and Anglesey Adoption Panel | 1 | Dylan Rees |
| 16. | Fostering Panel | 1 | Richard Griffiths |
| 17. | Joint Council for Wales (WLGA) *(entitlement to 2 members one of which is Portfolio Holder for Human Resources)* | 1 | John Griffith |
| 18. | Sustainable Development Fund Partnership | 1 | Richard Dew |
| 19. | Voluntary Sector Liaison Committee | 5 | Alun Mummery, Kenneth Hughes, Llinos Medi Huws, R. Meirion Jones, G.O. Jones |
| 20. | Anglesey Language Forum | 1 | Ieuan Williams, Bryan Owen, G.O. Jones + *1 vacancy* |
| 21. | Standards Committee | 2 | Dafydd Rhys Thomas, John Arwel Roberts |

***    Political Balance requirements apply to these appointments**

****    The Regulations now allow for up to 2 non-elected members to represent the Authority**

*****    The Panel is politically balanced across the region. Anglesey's representative is to be a Plaid Cymru Group member**

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **CYNGOR SIR YNYS MÔN** |
| **DYDDIAD:** | **18 MAI 2021** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **DATBLYGIAD AELODAU** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:** | **RHEOLWR HYFFORDDIANT – ADNODDAU DYNOL** |
| **SWYDDOG CYSWLLT :** | **MIRIAM WILLIAMS** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD :** | **DARPARU DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUNIAU AR GYFER RHAGLEN DATBLYGU A HYFFORDDI AELODAU 2021 - 2022** |

## 1. CEFNDIR

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu'r Cyngor Llawn â throsolwg o'r gweithgareddau a gynlluniwyd ar gyfer eu cynnig fel cyfleoedd datblygu i Aelodau Etholedig yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

## 2. CYNLLUN HYFFORDDI A DATBLYGU AELODAU

Yn amlwg, mae'r pandemig presennol wedi cael effaith ar y ddarpariaeth hyfforddiant dros y flwyddyn gyda gweithgareddau cyfyngedig wedi eu cynnig i Aelodau Etholedig. Yn gyffredinol, cyfleoedd E-ddysgu a sesiynau briffio sydd wedi eu cynnig.

Mae trafodaethau â'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, Penaethiaid Gwasanaeth, Arweinyddion Grwpiau a'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd wedi cadarnhau mai'r canlynol y dylid canolbwyntio arnynt yn ystod 2021-2022:

- Hyfforddiant Mandadol
- Hyfforddiant iPad
- Hyfforddiant Deddfwriaethol
- Sesiynau Briffio

Bydd manylion hyfforddiant sydd ar gael felly'n cael eu hyrwyddo pan fydd y sesiynau wedi eu trefnu, gan sicrhau y rhoddir rhybudd digonol.

Mae copi o adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar 16 Mawrth 2021i'w weld drwy y linc yma:

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/documents/s17002/Datblygu%20Aelodau.pdf?LLL=1

## 3. ADOLYGIADAU DATBLYGIAD PERSONOL (PDR) AR GYFER AELODAU

O ran y data a gasglwyd o'r adolygiadau Data Personol, bydd y gofynion yn cael eu hystyried fel y nodwyd uchod.

## 4. DARPARIAETH HYFFORDDIANT

Ar nodyn cyffredinol, am resymau cadw pellter cymdeithasol, nid yw dulliau traddodiadol o ddarparu Hyfforddiant wedi bod yn opsiwn dros y 12 mis diwethaf. Tra cynhelir adolygiad o drefniadau Covid o ran sesiynau ystafell ddosbarth, mae'n debygol iawn y bydd Hyfforddiant/sesiynau briffio yn y dyfodol yn parhau i gael eu cynnal drwy gyfryngau megis MS Teams/Zoom a drwy ddefnyddio cyfryngau E-ddysgu'r Cyngor, Learning Pool.

Mae Hyfforddiant ac arweiniad ar y defnydd o MS Teams / Zoom wedi bod ar gael i Aelodau Etholedig er mwyn hwyluso cyfraniad Aelodau i gyfarfodydd dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn ogystal, mae canllawiau ar ffurf llyfrynnau/fideos ar gael er mwyn cynorthwyo mynediad.

Mae modiwlau E-ddysgu, y gellir cael mynediad iddynt drwy blatfform E-ddysgu Learning Pool yr Awdurdod yn parhau i fod ar gael, gyda lefel gynyddol o wybodaeth yn cael ei hychwanegu yn wythnosol. Mae'r Tîm Dysgu a Datblygu ar hyn o bryd yn datblygu Adran Aelodau Etholedig ar blatfform E-ddysgu'r Awdurdod er mwyn gallu sicrhau gwell mynediad at wybodaeth am ddigwyddiadau Hyfforddiant/iechyd a llesiant. Y bwriad yw lansio hyn ddechrau'r Haf.

Yn ôl yr arfer, mae cefnogaeth o ran sgiliau TG ar gael ar sail 1-1/grŵp os oes angen.

## 5. ARGYMHELLION

Gofynnir i'r Cyngor gymeradwyo'r Cynllun Hyfforddiant ar trosglwyddiad cysylltiedig ar gyfer 2021/22, fel y manylir yn yr adroddiad yma.

**MIRIAM WILLIAMS**
**RHEOLWR HYFFORDDIANT AD**
**MAI 2021**

This page is intentionally left blank